



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Fframwaith Adsefydlu Cymru Gyfan: Egwyddorion i gyflawni dull gweithredu seiliedig ar werth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (2022)

**Dogfen i gefnogi blaenoriaethau person, gan ddefnyddio
dull sy'n seiliedig ar werth i gyrraedd anghenion adsefydlu
ehangach pobl Cymru.**

Cynnwys

Rhageiriau.....	2
Cydnabyddiaethau	5
Egwyddorion adsefydlu i GYMRU.....	6
Geirfa.....	6
Cyflwyniad	9
Cynulleidfa	9
Beth yw adsefydlu?	9
Pwrpas a chyd-destun	12
Methodoleg	14
Terminoleg.....	16
Cyfathrebu	18
Gofal di-dor.....	20
Egwyddorion adsefydlu i GYMRU.....	21
Model gofal adsefydlu mewn camau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.....	27
Personâu.....	32
Gofynion i wella ac ehangu adsefydlu	37
Sicrhau canlyniadau	37
Camau gweithredu a chamau nesaf?	38
Cyfeiriadau.....	41
Atodiadau.....	43
Atodiad A - Geirfa adsefydlu	43
Atodiad B – Mythau adsefydlu	48
Atodiad C - Adnoddau.....	49



Rhageiriau

‘Dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a medru parhau i gadw’n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib.’

[\(Cymru Iachach 2018\)](#)



Mary Cowern

Pennaeth
Nation, Cymru
Versus Arthritis

O ystyried y niferoedd cynyddol o bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog, yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a chefnlen rhestrau aros y GIG, ni fu erioed fwy o angen i ganolbwyntio ar wasanaethau adsefydlu cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Waeth beth fo'ch oedran, cyflwr neu ble rydych chi'n byw, dylai fod gan bawb yr hawl i adsefydlu. Ni ellir diystyru effaith gadarnhaol adsefydlu ar ansawdd bywyd i lawer. Gall wneud y gwahaniaeth rhwng gallu gwneud gweithgareddau a thasgau bob dydd yn annibynnol, yn hytrach na bod yn ddibynnol ar rywun arall. Ar ôl byw gydag arthritis fy hun ers dros 30 mlynedd, mae adsefydlu wedi bod yn rhan allweddol o'm triniaeth a'm cymorth. Fe helpodd fi i ddeall fy nghyflwr, sut i'w wella ac, yn bwysicaf oll, sut i reoli fy arthritis a byw'n dda.

Fodd bynnag, yn rhy aml mae pobl yn defnyddio gwasanaethau yn rhy hwyr neu ddim o gwbl. Rwy'n falch iawn o weld bod y fframwaith hwn yn cydnabod adsefydlu fel busnes pawb, dull cydweithredol sy'n dal y person yn ganolog iddo. Yn amlwg, rhaid inni wneud mwy i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn eu cymunedau, felly mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n dod yn fwy cydgysylltiedig.

Mae dull y fframwaith yn golygu newid diwylliannol sylweddol ar gyfer gwasanaethau adsefydlu yng Nghymru. Mae'n gofyn am ymrwymiad ac ymdrech ar draws pob sector – iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector – ymrwymiad integredig sy'n seiliedig ar werthoedd ac rwy'n gyffrous iawn i'w weld. Rwy'n croesawu'n arbennig y gydnabyddiaeth o rôl y trydydd sector wrth gyflawni'r dyheadau hyn.

Mae cydweithredu yn allweddol ac edrychaf ymlaen at weld yr egwyddorion yn y fframwaith hwn wedi'u hymgorffori gan gynllunwyr gwasanaethau, gan greu dull di-dor o gefnogi byw'n dda.



Gethin Harries

Arweinydd
adsefydlu sy'n
canolbwyntio ar y
person
Proffesiynau
Perthynol i Iechyd
Cymru Gyfan

Bydd y fframwaith adsefydlu'n ceisio mynd i'r afael â'r drafodaeth sydd weithiau'n aneglur am ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar werth i gefnogi anghenion adsefydlu, o gymharu â phrosesau a fodelwyd yn feddygol yn flaenorol. Mae'n ymgorffori iechyd meddwl wrth ystyried pob cyswllt ochr yn ochr ag ystyriaeth o benderfynyddion ehangach iechyd. Byw'n dda a chefnogi lles person, gan gynnwys y gweithlu adsefydlu, gofalwyr a'r sectorau annibynnol yw ei flaenoriaeth i sicrhau bod anghenion person yn cael eu diwallu, gan gydnabod nad oes unrhyw berson yn byw ar ei ben ei hun â chyflwr iechyd.

Mae'r fframwaith hwn yn cyfeirio'r darlennydd at adnoddau a fydd yn parhau i dyfu gyda datblygiad y rhaglen adsefydlu fel rhan o fframwaith a rhaglen drawsnewid y Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) a'r rhaglen cymrodoriaeth arweinyddiaeth a leolir yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).



Ruth Crowder

Prif Gyngorydd
Proffesiynau
Perthynol i Iechyd
(AHP),
Llywodraeth
Cymru

Mae grymuso pobl i fyw'n dda gyda hunanreolaeth â chymorth ac adsefydlu gweithredol o ansawdd uchel yn eu cartref a'u cymuned yn fusnes i bob un ohonom ym maes iechyd a gofal. Mae gwasanaeth iechyd a gofal adsefydlu a galluogi yn sicrhau effaith a chanlyniadau sylweddol wrth alluogi pobl i fyw'r bywyd y maent am ei fyw a bod yn rhan annatod o bob llwybr gofal.

Bydd y fframwaith hwn yn darparu strategaeth hirdymor ar gyfer gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu ar draws Cymru a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn seiliedig ar werth gan y gweithlu cyfan. Mae'r fframwaith adsefydlu cenedlaethol cyntaf, a ddatblygwyd ym mis Mai 2020, mewn ymateb i'r sefyllfa argyfyngus yn ystod ton gyntaf y pandemig wedi bod yn hynod effeithiol wrth godi proffil pwysigrwydd hanfodol adsefydlu, ailalluogi ac adferiad, gan gynnwys adsefydlu i bobl Cymru.

Datblygwyd y fframwaith hwn drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y gweithlu iechyd a gofal, a phobl sydd â phrofiad byw a heb brofiad byw. Mae eu hadborth yn glir: mae angen i wasanaethau fod yn llawer mwy hygyrch, person-ganolog a hyblyg. Un neges gref yw bod yn rhaid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth pobl o bwysigrwydd adsefydlu; a sut i gael mynediad at wasanaethau yn eu hardal. Mae tystiolaeth o werth a budd mynediad yn ddigidol, yn ogystal â thrwy ymyriadau wyneb yn wyneb. Mae'r trydydd sector yn cynnig llawer o opsiynau adsefydlu creadigol a dylai fod yn rhan annatod o'r 'cynnig' system gyfan gofynnol ar gyfer adsefydlu.

Bydd cael adsefydlu'n iawn yn ein galluogi ni i gyd i ddarparu'r canlyniadau iechyd gorau oll i bobl o bob oed a sicrhau bod pob person rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni hyd eithaf ei allu i fyw'r bywyd maen nhw'n dymuno ei fyw a gwneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Cydnabyddiaethau

Mae llawer o bobl wedi gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu Fframwaith Adsefydlu Cymru Gyfan: egwyddorion i gyflawni dull gweithredu seiliedig ar werth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (2022). Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid adsefydlu, a oedd yn cynnwys aelodau o'r sector iechyd, gofal a'r trydydd sector, undebau llafur a sefydliadau addysg uwch (SAU).

Hoffem ddiolch i'r grwpiau profiad bywyd canlynol am eu hamser a'u meddyliau:

- Grŵp llwybrau cleifion COVID Hir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y grŵp cyfeirio strôc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Panel profiadau defnyddwyr gwasanaethau byw'n dda Powys ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Hoffem ddiolch i'r partneriaid canlynol:

- Cymdeithas Alzheimer's Cymru
- Asthma and Lung UK
- Sefydliad Prydeinig y Galon
- Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP)
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
- Parkinson's UK Cymru
- Coleg Brenhinol Therapi Galwedigaethol (RCOT)
- Elusen Shine
- TEC Cymru
- Y Gymdeithas Strôc
- Opera Cenedlaethol Cymru

Egwyddorion adsefydlu i GYMRU



Cynnal – cynllunio gwasanaethau tymor hir, croesawu arloesedd digidol er budd cymdeithasol a ffyrdd mwy gwyrdd o weithio a byw



Ymateb gan bawb – ethos cydweithredol gweithlu cyfan a rhanddeiliaid



Mynediad - gwasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb



Rhoi pwyslais ar les – buddsoddi yn y gweithlu i ddarparu dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion



Uniglion yn byw bywyd hir, hapus – byw'n iach, atal, hunanreolaeth â chymorth ac optimeiddio

Gweler [Adran 8](#) isod am ragor o wybodaeth am yr egwyddorion Adsefydlu

Geirfa

Mae'r eirfa yn darparu diffiniadau hawdd eu deall ar gyfer y prif dermau a ddefnyddir yn y fframwaith adsefydlu hwn. Ceir geirfa fanwl bellach yn [Atodiad A](#).

Proffesiynau Perthynol i lechyd	Mae Proffesiynau Perthynol i lechyd (AHP) yn derm cyfunol a ddefnyddir i ddisgrifio – Tri ar ddeg o wahanol broffesiynau yng Nghymru. Ar gyfer y fframwaith hwn, mae gweithlu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd (AHPau) yn cynnwys gweithwyr cofrestredig a gweithwyr cymorth.
Dull bioseicogymdeithasol	Model sy'n ystyried ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol yn ganolog i gefnogi adsefydlu person.
Cydgynhyrchu	Ffordd o feddwl sy'n cydnabod arbenigedd pobl eu hunain wrth ddatrys eu problemau eu hunain. Yng nghyd-destun adsefydlu mae hyn yn golygu bod y gweithlu adsefydlu yn cydnabod yr hyn sydd bwysicaf i bobl a beth fydd yn gweithio orau iddynt gyflawni hyn. Mae hyn yn cyfrannu at ddull sy'n cael ei yrru gan werth sydd wedi'i adeiladu ar yr egwyddor bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth mewn sefyllfa dda i helpu i gynllunio'r gofal a gânt. Mae hyn yn ei dro yn hybu ymreolaeth ac yn lleihau'r risg o ddibyniaeth.
Cyfannol	Ystyried y person cyflawn yn ystod unrhyw gyfathrebu. Ategir hyn gan y cysyniad bod cysylltiad cymhleth rhwng ein hiechyd corfforol a'n lles cymdeithasol a seicolegol.
Anghenion	Ar gyfer y fframwaith adsefydlu, mae 'anghenion' yn ymwneud â'r gallu neu'r galluedd i fod o fudd i berson. Mae anghenion yn gysylltiedig â lles yn seiliedig ar anghenion corfforol person (e.e., bwyd digonol, iechyd corfforol) ac anghenion cymdeithasol a seicolegol (e.e., ymdeimlad o gysylltiad ag eraill, teimlo eu bod yn cael eu deall, ymdeimlad o ddiogelwch, ac ymdeimlad o statws, pwrpas, a chyflawniad).
Optimeiddio	Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at reoli adsefydlu diogel ac effeithiol, sy'n sicrhau bod pobl yn cael y canlyniadau gorau posibl. Ni ddylid ei ddefnyddio i gyfyngu ar nodau a dyheadau adsefydlu.
Pobl/ person/ plentyn	Defnyddir yn y fframwaith hwn yn lle claf, defnyddiwr gwasanaeth neu gwsmer. Dylid cydnabod bod rôl gweithwyr adsefydlu arbenigol yn ehangach na chanolbwyntio ar yr unigolyn yn unig. Mae'n ymestyn i gefnogi cydweithwyr person, aelodau o'r teulu, gofawyr, a'r gymuned ehangach. Ystyrir bod hyn yn agwedd bwysig ar gael yr effaith fwyaf, cefnogi'r rhai sy'n agos at berson i hwyluso eu lles, a chreu cymunedau a chymunedau ymarfer galluog a hunangynhaliol.

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	Gofal sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n hybu annibyniaeth ac ymreolaeth, sy'n hwyluso dewis a rheolaeth yn weithredol, ac sy'n seiliedig ar barch sylfaenol at ymreolaeth pobl. Mae'n cydnabod, heb ddarganfod beth sy'n wirioneddol bwysig i rywun, na allwn honni ein bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae darganfod beth sy'n bwysig yn gofyn i ni adeiladu perthnasau ystyrlon a chydweithredol gyda phobl ac aelodau o'u teuluoedd. Mae'n cydnabod y dylai gofal fod yn gyfannol i gynnwys dimensiwn emosiynol, ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol.
Rhagsefydlu	Yn cynnwys popeth sy'n digwydd wrth baratoi ar gyfer triniaeth/ymyrraeth o fewn pa bynnag amser sydd ar gael cyn iddo ddechrau. Gall fod yn rhaglen o gymorth a chyngor sy'n cynnwys lles seicolegol, gweithgaredd corfforol a bwyta'n iach. Mewn rhai amgylchiadau gall rhagsefydlu olygu na fydd angen yr ymyriad cychwynnol arfaethedig/a awgrymir ar unigolyn mwyach.
Ailalluogi	Mae'n cyfeirio at ddull galluogi gyda gwasanaethau sy'n darparu adsefydlu i bawb ag anabledau corfforol neu feddyliol. Mae'n eu helpu i addasu i'w cyflwr trwy ddysgu neu aiddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu mewn bywyd bob dydd. Mae'r ffocws ar hyrwyddo a gwneud y gorau o annibyniaeth swyddogaethol trwy ymarfer gweithgareddau, yn hytrach nag ymyriadau sydd wedi'u hanelu at wella namau sylfaenol.
Ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfder	Proses gydweithredol rhwng y person a gefnogir gan wasanaethau a'r rhai sy'n eu cefnogi, gan ganiatáu iddynt weithio gyda'i gilydd i bennu canlyniad sy'n tynnu ar gryfderau ac asedau'r person.
Cefnogi hunanreolaeth	Sut y gall iechyd a gofal a'r gweithlu ehangach gefnogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i reoli eu hiechyd a'u lles i barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.
Amryddawn	Aelod o'r gweithlu adsefydlu sy'n gallu cymhwyso dyfnder o sgiliau i gwmpas cynyddol o sefyllfaoedd a phrofiadau, gan ennill cymwyseddau newydd, meithrin perthnasoedd yn y broses yn ogystal â chymryd rolau newydd. Gall cyffredinolwyr ac arbenigwyr fod yn amlbwrpaswyr.
Lles	Mae hyn yn ymwneud â theimlo'n dda, gweithredu'n dda ac mae'n cynnwys profiad unigolyn o'i fywyd, gan gynnwys normau a gwerthoedd cymdeithasol.

Cyflwyniad

Mae adsefydlu wedi dod yn flaenoriaeth iechyd a gofal nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd. Mae'r galw am adsefydlu yn cynyddu oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau cymhleth hirdymor, dad-gyflyru ac effeithiau andwyol y pandemig ar iechyd a lles pobl. Mae'r holl weithlu iechyd a gofal, gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPau) wedi dangos eu bod yn wydn ac yn ymatebol i anghenion y boblogaeth. Wrth symud ymlaen rhaid inni alluogi'r gweithlu adsefydlu i ddefnyddio eu sgiliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn llawn. Mae gan ein gweithlu AHP amrywiol gyfle gwych i fod yn gydrannau allweddol ym mhob maes adsefydlu. Bydd angen cynnwys pob sefydliad iechyd, gofal a thrydydd sector sy'n darparu adsefydlu yn nes at y cartref.

Mae'r fframwaith hwn yn cyd-fynd â llwybrau sefydliadol a gwasanaeth a fframweithiau gwerthuso presennol. Mae'n cefnogi'r egwyddorion a'r camau gweithredu yn y [Fframwaith Proffesiynol Perthynol i Iechyd: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd](#)¹, sy'n rhoi gweledigaeth [Cymru Iachach \(Llywodraeth Cymru 2018\)](#)² ar waith. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cefnogi Model Gofal Sylfaenol Cymru, sy'n datblygu strategaeth [Gofal Sylfaenol](#)³ a'r [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol \(NCF\)](#)⁴.

Cynulleidfa

Bydd y fframwaith hwn o ddi-ddordeb i'r holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig ag adsefydlu; **'Mae adsefydlu yn fusnes i bawb'**. Cynlluniwyd y fframwaith yn benodol i gynorthwyo'r gweithlu adsefydlu i gefnogi anghenion person.

Beth yw adsefydlu?

Mae'r tri gair, **adsefydlu**, **ail-alluogi** ac **adferiad**, yn cael eu cydnabod ar draws y dirwedd iechyd a gofal i ddisgrifio'r broses y mae pobl yn mynd drwyddi i leihau effaith salwch neu anaf. Gall y geiriau hyn olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae ymdeimlad o gynefindra ag un neu fwy o'r geiriau hyn yn dibynnu a ydynt yn cael eu cymhwyso i iechyd corfforol neu feddyliol, iechyd neu ofal cymdeithasol, gwasanaethau oedolion neu blant.

Diffinnir adsefydlu fel **'set o ymyriadau a gynlluniwyd i optimeiddio gweithrediad a lleihau anabledd mewn unigolion â chyflyrau iechyd wrth ryngweithio â'u hamgylchedd'** ([Rehabilitation who.int](#))⁵. Er bod adsefydlu yn aml yn cael ei weld yn

¹ [Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd \(AHP\) | LLYW.CYMRU](#)

² [Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

³ [Rhaglen Strategol – Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](#)

⁴ [Fframwaith clinigol cenedlaethol: system ddysgu iechyd a gofal | LLYW.CYMRU](#)

⁵ [Rehabilitation \(who.int\)](#)

broses gorfforol, a ddefnyddir amlaf mewn lleoliadau 'iechyd', mae'n bwysig nodi bod lles seicolegol yn cael ei gydnabod fel rhan annatod o unrhyw daith adsefydlu.

Mae ail-alluogi yn darparu cymorth yng nghartref unigolyn i wella ei hyder a'i allu i fyw mor annibynnol â phosibl ([Age UK, 2022](#)⁶). Fe'i defnyddir amlaf o fewn gofal cymdeithasol, yn ymwneud ag elfen adferol adsefydlu.

Gellir diffinio adferiad fel 'adfer ansawdd bywyd ac adennill y pethau hynny sy'n bwysig i ni a allai fod wedi'u colli oherwydd salwch, cyfrifoldeb gofalu a/neu anabledd' ([Barnsley Recovery and Wellbeing College, 2020](#))⁷. Mae adferiad yn golygu symud o fodolau meddygol traddodiadol i [ddulliau sy'n seiliedig ar gryfder \(Xie, 2013\)](#)⁸, gan ganolbwyntio ar allu'r person a helpu i ddatblygu ei hyder. Gan ei fod yn derm sydd fwyaf cyfarwydd mewn lleoliadau iechyd meddwl, mae'n adlewyrchu'r shifft person-ganolog y mae'r broses adsefydlu'n ceisio ei ymgorffori.

Mae'r tri gair yn adlewyrchu proses a all fod yn berthnasol i bobl o bob oed ac y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl y mae namau corfforol, meddyliol, cymdeithasol neu wybyddol yn effeithio arnynt i wneud y gorau o'u potensial i fyw bywydau hapusach, iachach a hirach.

O fewn y fframwaith hwn, defnyddir y term 'adsefydlu' i gwmpasu adferiad ac ail-alluogi. Gellir ei ddiffinio fel proses gyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n rhoi gwerth cyfartal i'r person, y gymdeithas o'i chwmpas a phenderfynyddion ehangach. Mae'n cynnwys dulliau sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ar gyfer atal, adsefydlu a hunanreoli â chymorth sy'n cael eu darparu gan weithlu medrus ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector.

⁶ [Intermediate care and reablement \(ageuk.org.uk\)](#)

⁷ [What is a Recovery College? - Barnsley Recovery College](#)

⁸ [Strengths-Based Approach for Mental Health Recovery \(nih.gov\)](#)

Gofynnwyd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r gweithlu am eu dealltwriaeth o'r hyn y mae adsefydlu yn ei olygu. Dangosir canlyniadau arolwg a grwpiau profiad byw yn Nhabl 1.

Tabl 1 – Dealltwriaeth pobl a gweithlu o adsefydlu

Barn Pobl	Barn y gweithlu
Ailintegreiddio i gymdeithas	Adferiad
Cyfranogiad	Potensial
Gwellhad	Ailnerthu
Annibyniaeth	Gobaith
Cyfannol	

Yn nodedig, roedd mythau a chamsyniadau ynghylch adsefydlu (er enghraifft, “Nid ar gyfer pobl â dementia neu sy’n lliniarol”), yn themâu yn y grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd disgwyliadau cadarnhaol a mwy realistig o effaith adsefydlu yn fwy amlwg, megis:

“Gall adsefydlu helpu pobl sy’n byw gyda dementia ac mewn gofal diwedd oes”

Ceir rhagor o wybodaeth am fythau adsefydlu yn [Atodiad B](#).

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys cynrychiolaeth weledol i gynorthwyo negeseuon clir am bwysigrwydd dull adsefydlu sy'n [canolbwyntio ar yr unigolyn](#)⁹. Mae Darlun 1 yn dangos y person sydd yng nghanol eu cymuned gyda Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd, yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a'r gymuned i ddarparu cymorth adsefydlu pan fo angen. Mae hefyd yn dangos na ddylai person ag anghenion adsefydlu fyw ar ei ben ei hun gydag unrhyw heriau cysylltiedig ac y dylai yn lle hynny gael ei amgylchynu gan gymuned o gefnogaeth. Bydd y dull yn lleihau atgyfeiriadau lluosog ac amseroedd aros, gan sicrhau bod pobl yn cael eu gweld yn y [lle iawn](#)¹⁰ ar yr amser iawn.

Mae proffiliau swyddi AHP ar gael, gydag enghreifftiau o rôl pob proffesiwn mewn adsefydlu ([proffiliau swyddi AHP yma yng Nghymru](#))¹¹.

9 Fframwaith clinigol cenedlaethol: system ddysgu iechyd a gofal | LLYW.CYMRU

¹⁰ Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf: Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng – Llawlyfr Polisi 2021-2026 (gov.wales)

¹¹ <https://aagic.gig.cymru/gyrfaoedd/rolau/gweithwyr-proffesiynol-perthynol-i-iechyd/therapi-celf/ahp-job-profile-cym/>

Darlun 1: Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – enghraifft o AHP yn gweithio ar y cyd â'r gymuned gyfan gan gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill.



Pwrpas a chyd-destun

Mae'r fframwaith hwn yn helpu cynllunwyr gwasanaeth i gefnogi anghenion pobl o bob grŵp oedran ac o bob poblogaeth, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd oes. Mae'n canolbwyntio ar anghenion person ac nid yw'n benodol i glefyd neu gyflwr. Mae'n hybu ystyriaeth o gydraddoldeb, megis effaith eiddilwch waeth beth fo'i oedran wrth gefnogi taith adsefydlu person. Mae datblygiad parhaus adsefydlu ym mhob rhan o iechyd a gofal yn allweddol i wella canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod pwysigrwydd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r gweithlu ehangach ar bob cam o daith adsefydlu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn unol â [chanllawiau enghreifftiol NICE](#)¹², mae'n nodi mai'r allwedd i gyflawni ansawdd yw drwy ddull system gyfan lle mae pawb sy'n ymwneud ag adsefydlu yn ymgysylltu ac yn gweithio ar y cyd.

Rhaid i adsefydlu dod yn "fusnes i bawb" i ddiwallu anghenion ein poblogaeth a'r galw cynyddol bresennol am gymorth fel y gwelir ar y wefan [Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

¹² [Trosolwg | Rehabilitation after traumatic injury | Canllaw | NICE](#)

[\(llyw.cymru\)](#)¹³. Mae angen diwylliant ar draws y gweithlu sy'n grymuso pobl i fod yn bartneriaid cyfartal wrth wneud y mwyaf o'u hadferiad a'u hannibyniaeth eu hunain, yn enwedig i sicrhau agwedd aros yn iach, gan gynnwys rhagsefydlu fel rhan ganolog o sicrhau bod pobl yn cael eu hadsefydlu i'r eithaf. Daw'r dyfyniad canlynol gan **berson â phrofiad byw** o adsefydlu, a gasglwyd drwy'r arolwg mewnwelediad adsefydlu:

“Mae adsefydlu mor bwysig i mi cyn llawdriniaeth ag ydyw wedyn i fyw cystal â phosibl gyda chyflwr cronig”

Bydd cynnig adsefydlu cynnar di-dor drwy gefnogi pobl yn nes at y cartref, ar draws pob lleoliad, yn gofyn am ddarparu adnoddau, hyfforddiant a'r hyder i symud y risg o wneud penderfyniadau ymhellach i ffwrdd o leoliadau ysbyty traddodiadol. Gall ymyrraeth gynnar, er enghraifft gan barafeddygon a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill, osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, megis asesu neu atal cwmpadau. Gellir cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy hyfforddi'r gweithlu a chymhwyso canllawiau cenedlaethol yn lleol ([Canllawiau Gofal Sylfaenol gweithlu AHP, 2021](#))¹⁴.

Bydd sicrhau bod y set sgiliau cywir ar gael mewn modd amserol, yn nes at y cartref, trwy ddarparu gofal cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu pobl ymhellach gyda'u hadsefydliad. Mae Tabl 2 yn dangos enghraifft o ddatblygu rolau uwch ymarferwyr yn gweithio mewn Gofal Sylfaenol i helpu gofal di-dor ac atal derbyniadau i'r ysbyty.

Tabl 2 – Ymarfer uwch a chydweithio gyda Gofal Sylfaenol

Ffocws	Uwch Barafeddygon Cylchdro (APPau) yn gweithio yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ac amrywiol fyrddau iechyd ar draws Cymru.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	Uwch Ymarferwyr Parafeddygol. Lleoliadau Gofal Sylfaenol. Pobl â chyflwyniadau aciwt/brys sydd angen mynediad at wasanaethau adsefydlu.
Pwrpas	Ymestyn gwybodaeth a sgiliau APPau mewn gwell asesu a mynediad at lwybrau fel rhan o dîm amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol. Cyflawnir hyn trwy batrwm gwaith cylchdro ar draws gwahanol leoliadau ac mae'n helpu WAST i wella canlyniadau i bobl mewn sefyllfaoedd brys.

¹³ [12 <https://statscymru.llywlechydd a Gofal Cymdeithasol \(Llyw Cymru\).cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care>](https://statscymru.llywlechydd a Gofal Cymdeithasol (Llyw Cymru).cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care)

¹⁴ [SPPC templad Word A4 v2 \(gig.cymru\)](#)

Canlyniadau	<p>Cyflawnodd uwch barafeddygon cylchdro gyfraddau cludo is i'r ysbyty ac atgyfeiriadau uwch i lwybrau amgen (gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu) o gymharu â'r gweithlu parafeddygon safonol.</p> <p>Caniataodd hyn i broffesiwn arall symud gwasanaethau i ofal sylfaenol ac ychwanegu gwerth.</p> <p>Gwell perthnasoedd gwaith a dealltwriaeth o wasanaethau rhwng WAST a gofal sylfaenol. Mae nodi anghenion pobl ar y cyswllt cyntaf a sicrhau bod gofal priodol yn cael ei ddefnyddio yn osgoi dyblygu ac yn darparu dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Amrywiaeth o rôl gylchdro yn gwella lles cyffredinol y gweithlu. Mae gwerthusiad PACESETTER o'r treial APP ar gael yn www.appacesetter.co.uk¹⁵.</p>
Uchelgeisiau i'r dyfodol	Ymgorffori gweithio cylchdro ar draws rotâu ymarfer uwch yng Nghymru i wella dewis a rheolaeth pobl mewn Gofal Brys ac Argyfwng.

Mae'r fframwaith hwn yn tanlinellu'r manteision i'r holl randdeiliaid fod yn rhan o rannu arbenigedd a gwybodaeth i gefnogi anghenion person a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Mae AHPs mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi dull amlbroffesiynol o wella cyfathrebu cydgynhyrchiol rhwng yr holl randdeiliaid. Gall gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r gweithlu adsefydlu ehangach ddod yn amlwrpaswyr sydd â set eang o sgiliau a phrofiad o fewn cwmpas, ond yn hollbwysig maent yn cael eu cydnabod ar draws meysydd eraill ([Morello, 2005](#)).

Mae'n bwysig bod cymorth iechyd a gofal yn gallu diwallu anghenion unigolion. Disgrifir y model adsefydlu gofal fesul cam sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, gan ddangos sut y gellir cynyddu neu leihau anghenion y person ar unrhyw adeg, gyda'r ymateb priodol yn y lleoliad cywir.

Methodoleg

Mae'r fframwaith adsefydlu hwn yn cyd-fynd â system iechyd a gofal sy'n cael ei chydgyssylltu'n genedlaethol a'i darparu'n lleol trwy gydweithio rhanbarthol yn unol â pholisi a strategaeth sy'n datblygu megis [Datblygiad Clwstwr Carlam \[ACD\]](#)¹⁶.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu tystiolaeth a dangos effaith:

¹⁵ <http://www.appacesetter.co.uk/>

¹⁶ [Pecyn Cymorth Datblygiad Clwstwr Carlam – Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](#)

- Darparodd **grŵp cyfeirio rhanddeiliaid adsefydlu** o 72 aelod, gan gynnwys iechyd a gofal, y trydydd sector, undebau llafur a sefydliadau addysg uwch arweiniad ac arbenigedd.
-
- **Cwmpasu adolygiad llenyddiaeth** yn edrych ar ymchwil gyfredol i archwilio dystiolaeth adsefydlu gyda ffocws ar y 2 flynedd ddiwethaf.
-
- **Grwpiau profiad byw** yn cysylltu â phobl sydd â phrofiad o adsefydlu i ddarganfod beth sydd bwysicaf iddynt.
-
- **Arolygon mewnwelediad adsefydlu** wedi'u datblygu ar gyfer pobl a'r gweithlu er mwyn cael dealltwriaeth o'r hyn y mae adsefydlu yn ei olygu a beth yw adsefydlu da iddynt.

Mae canlyniadau'r arolwg llawn i'w gweld yn yr adolygiad llenyddiaeth cwmpasu¹⁷ ategol. Cysylltwyd â'r gweithlu ehangach yng Nghymru drwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd ar gyfer pob bwrdd iechyd, AaGIC a'r cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd chwe sesiwn grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a barodd 90 munud yr un, gan gwmpasu pynciau allweddol a nodwyd trwy'r llenyddiaeth a thrafodaethau grŵp rhanddeiliaid:


- Terminoleg
- Codi ymwybyddiaeth a mynediad
- Cynigion adsefydlu cychwynnol
- Modelu adsefydlu
- Iechyd digidol
- Proses a gwerthuso

Llywiwyd y fframwaith gan dystiolaeth gyfredol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd parhaus y 4 elfen o adsefydlu a sefydlwyd gan Dietz (Darlun 2) ac a ddyfynnwyd gan waith diweddar yn ymwneud â rhagsefydlu ac adsefydlu ar gyfer oedolion â chanser ([Merchant et al, 2022](#))¹⁸.

¹⁷ Ar gael ar gais: e-bost IGC.AdsefydluAcAHPs@llyw.cymru

¹⁸ [Prehabilitation and Rehabilitation in Older Adults with Cancer and Frailty | SpringerLink](#)

Darlun 2: Pedwar elfen adsefydlu Dietz



Mae'r rhain yn uniongyrchol berthnasol i ymarfer ac yn cyd-fynd â gwerth mewn methodoleg iechyd, sy'n cynnwys atal, diagnosis cynnar cywir, optimeiddio ymyrraeth, triniaeth gefnogol, a gofal diwedd oes. Mae'r fframwaith hwn yn dangos sut y dylid defnyddio'r elfennau hyn yn ymarferol i nodi anghenion y boblogaeth ehangach. Mae'n bwysig nodi y bydd cyflyrau hirdymor a rheoli aml-forbidrwydd yn cael eu cynnwys ym mhob elfen, yn enwedig wrth ystyried gallu person i fyw'n dda gyda chlefyd sy'n cyfyngu ar fywyd.

Mae nodi pobl y mae angen adsefydlu arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf yn hanfodol i sicrhau mynediad at y gwasanaethau adsefydlu cywir ac atgyfeiriad di-dor priodol ymlaen. Er enghraifft, mae dull tîm cwmpiaidau cydweithredol yn golygu bod parafeddygon a ffisiotherapyddion neu therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda'i gilydd i fabwysiadu dull cyfannol o asesu oedolion hŷn sydd wedi cwmpo gartref, er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei roi i gadw'r person gartref, gan osgoi derbyniad diangen i'r ysbyty.

Terminoleg

Mae'r diffiniad o adsefydlu yn y fframwaith hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, adborth gan y grwpiau rhanddeiliaid, pobl ac arolygon. Mae'r fframwaith yn cefnogi gwell dealltwriaeth o adsefydlu gan y bobl sy'n ei gyrchu a'i ddarparu, gan gynnwys teulu a gofalwyr, gweithwyr iechyd a gofal, y gymuned a'r trydydd sector. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y gall terminoleg fod yn ddadleuol, a bod iaith yn bwysig,

felly mae geiriad penodol wedi'i ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau i ddiwallu anghenion person ([Gweler Atodiad A – Geirfa Adsefydlu](#)).

Defnyddir y termau 'person', 'pobl', a'r 'cyhoedd' yn y fframwaith i gynrychioli pawb sy'n cael mynediad at adsefydlu. Mae ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i gwreiddio ym mhob rhan o'r fframwaith a bydd ymgysylltu parhaus â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn allweddol ([Patient involvement | The King's Fund \(kingsfund.org.uk\)](#)¹⁹). Mae cyd-gynhyrchu yn arf allweddol ar gyfer sicrhau bod anghenion pobl wrth wraidd eu gofal a bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n cyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau i wella ansawdd, gwerth a gwelliannau.

Ceir enghraifft o adsefydlu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o amgylch cyd-gynhyrchu yn Nhabl 3.

Tabl 3 - Dull cydgynhyrchiol o gefnogi pobl â chyflyrau hirdymor

Ffocws	Cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	Ymarferydd seicoleg Seicolegwyr cynorthwyol Uwch ymarferydd Ffisiotherapi a dietegydd Meddyg Teulu Pobl sydd â phrofiad byw fel rhan o banel profiad Rheolwr rhaglen a chymorth busnes Hwyluswyr digidol Tîm gweinyddol
Pwrpas	Cydgynhyrchu i ddarparu gwerthusiad parhaus a datblygiad y gwasanaeth i bobl â chyflyrau hirdymor. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymyrraeth a chymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Aseiad bioseicogymdeithasol cynhwysfawr a llunio anghenion a nodau ar sail gwerth. Darparu'r gofal cywir ar yr amser iawn yn y cartref (rhithwir).
Canlyniadau	Gwella hunan-atgyfeiriad i gynnwys mynediad digidol yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau mynediad haws at y gwasanaeth. Gwelliant sylweddol mewn presenoldeb mewn apwyntiadau oherwydd datblygiad y mynediad digidol.


¹⁹ ([Patient involvement | The King's Fund \(kingsfund.org.uk\)](#))

	Goresgyn rhwystrau megis anghydraddoldeb digidol trwy gael mynediad i'r tîm hwylusydd digidol a chefnogaeth y trydydd sector.
Uchelgais yn y dyfodol	Ymgysylltu parhaus â phobl â phrofiad byw i gefnogi datblygiad y gwasanaeth. Cynnydd parhaus o ran mynediad digidol i'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Creu gweithlu cynaliadwy ar gyfer gwasanaeth cyflyrau hirdymor gwledig.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu da yn allweddol i ymgysylltiad cydweithredol a chyfranogiad mewn rheolaeth adsefydlu. Dylid ystyried dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser wrth ymgysylltu ag unigolyn mewn sgwrs therapiwtig ystyrllon i ddiwallu anghenion y person.

“Beth sy'n bwysig i chi?”



Dylai cyfathrebu effeithiol gynnwys dealltwriaeth o gredoau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol yn ogystal ag ystyried penderfynyddion ehangach iechyd. Dylai hyn gynnwys ystyried galluedd a chydysniad person. Mae angen newid diwylliannol mewn ymddygiad ac agweddau pob [gweithlu](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf)²⁰ iechyd a gofal i gymryd rhan mewn sgwrsiau ystyrllon i ddiwallu anghenion pawb. Bydd buddsoddi mewn datblygu sgiliau cyfathrebu

²⁰ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf>

ac addysg hunanreoli â chymorth, ymrwymiad, cefnogaeth a gwynwch yn bwysig i gyflawni'r newid diwylliannol hwn.

Mae arloesedd megis y defnydd o iechyd digidol wedi'i ddangos ar draws Cymru cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig ac mae wedi gwella cyfathrebu'n llwyddiannus. Mae AHPau wedi arwain ar y defnydd cynyddol o fformatau digidol i gefnogi gallu pobl i ymgysylltu ag adsefydlu yn ystod y pandemig.

Ar hyn o bryd mae arloesi digidol yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Ymgynghori fideo
- Teleiechyd
- Teleofal

[\(TEC Cymru | Iechyd Digidol Cymru\)](#)

Mae casglu data a chyfleu ei fanteision yn agwedd allweddol ar arloesi digidol.

Bellach mae gan adsefydlu yng Nghymru gyfle i barhau i groesawu manteision iechyd digidol ac integreiddio i ddulliau mwy cymysg ar ôl y pandemig. Mae Tabl 4 isod yn dangos enghraifft dda o ddefnydd digidol arloesol i gyrraedd oedolion ag anableddau dysgu yn ystod y pandemig.

Tabl 4 – Defnydd digidol arloesol

Ffocws	Gwasanaeth adsefydlu yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	Ffisiotherapyddion Oedolion ag anabledd dysgu Teuluoedd a staff cymorth
Pwrpas	Darparu opsiynau i bawb sydd angen adsefydlu. Crëwyd fideos ar sianeli cyfryngau cymdeithasol i helpu pobl yn y gymuned gyda'r pynciau canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Technegau clirio'r frest• loga ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn• Sesiynau ymarfer aerobig i gerddoriaeth
Canlyniadau	Mae pobl wedi nodi gwelliannau yn eu lles a'u cyflyru cyffredinol. Nid yw pobl wedi gorfod teithio i ac o sesiynau corfforol sydd wedi golygu mwy o gydymffurfio â chynlluniau rheoli a sesiynau sy'n fwy hygyrch i bawb.

	<p>Drwy gymorth gan gymheiriaid yn y gymuned, rhannodd aelodau'r teulu a gweithwyr cymorth syniadau ar y cyd ar wella adsefydlu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.</p> <p>Rhannwyd 48 o fideos ar gyfryngau cymdeithasol. Datblygwyd 359 awr o "amser gwyllo" dros flwyddyn gyda bron i 4000 wedi "gweld".</p>
Uchelgais yn y dyfodol	<p>Mae'r sianel cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod ar-lein i'r rhai sy'n ei ffafrio, ac maen nhw'n gobeithio gwneud y mwyaf o'r "cyfleoedd digidol" hyn fel y gall pobl barhau i elwa yn y dyfodol.</p>

Bydd gweithlu sy'n fwy gwybodus yn seicolegol, sydd ar gael yn gyson i bobl sydd angen adsefydlu, yn enwedig yn ystod cyfnod aciwt cymorth, yn sicrhau bod person yn dod yn rhan wirioneddol o ddull gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ystyried ei anghenion. Bydd gwell sgiliau cyfathrebu therapiwtig yn cefnogi'r gweithlu i gael sgysiau mwy cymhleth ar ôl y pandemig, gyda'r nod o wella profiad yr unigolyn yn ogystal â hyder a lles y gweithlu. Gweler yr adran [Adnoddau](#) am ragor o wybodaeth am gyfathrebu.

Gofal di-dor

Yr uchelgais yng Nghymru yw i wasanaethau adsefydlu ddarparu cymorth a gofal yn nes at y cartref. Mae hyn yn golygu naill ai yn y cartref neu mewn lleoliad cymunedol lleol, gan gydnabod y gall fod rhywfaint o angen am driniaeth yn yr ysbyty. Rhaid i'r llwybrau 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu' (D2RA) fod yn sail i ryddhau di-dor o'r ysbyty. Mae angen i bobl sydd angen adsefydlu parhaus gael mynediad at y llwybr priodol gyda chynllun y cytunwyd arno. Bydd hyn yn cefnogi mynediad at adsefydlu sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau tymor byr yn dod yn ddarpariaeth hirdymor yn ddiangen.

Gall darparu adsefydlu amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (gan gynnwys adsefydlu) helpu i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty sy'n gostus, lleihau hyd arhosiad mewn ysbyty ac atal aildderbyn. Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu gwasanaethau arbenigol a thrydyddol â gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i sicrhau parhad gofal yn y gymuned. Mae Tabl 5 yn rhoi enghraifft o hyn gyda ffocws ar ddarparu'r amodau cywir i optimeiddio canlyniadau person.


Tabl 5 – Enghraifft o ofal di-dor arbenigol o'r aciwt i'r gymuned

Ffocws	Taith adsefydlu person o ofal critigol i'r gymuned.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	AHPs – ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Dau dechnegydd ffisiotherapi Band 4 gyda hyfforddiant ychwanegol mewn cymorth therapi galwedigaethol.
Pwrpas	Darparu ymyrraeth gynnar i bobl trwy ddefnyddio gweithlu AHP medrus lle bo angen. Darparu gofal di-dor trwy gefnogi'r gwahanol dimau aml-broffesiynol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lleoliadau aciwt a wardiau cymunedol, yna i'r gymuned mewn cydweithrediad â thimau ail-alluogi lleol.
Canlyniadau	Gostyngiad yn y gyfradd aildderbyn o 20% i 4.7% o fewn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, gan arwain at gapasiti ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf ar yr amser cywir. Gwell recriwtio staff. Adeoli staff lle bo angen. Cymorth gan reolwyr gwasanaeth arloesol i ddarparu adnoddau ariannol ar draws llwybrau ysbyty traddodiadol. Clinigau dilynol gyda mwy o ffocws gyda'r bobl iawn yn mynychu ar yr amser iawn.
Uchelgais yn y dyfodol	Gwella mynediad at wasanaethau cymorth sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol trwy gydol y daith adsefydlu. Datblygu technegwyr cyffredinol trwy hyfforddiant a chefnogaeth dieteg a lleferydd ac iaith. Ystyried lledaeniad cynaliadwy a maint y math hwn o wasanaeth.

Egwyddorion adsefydlu i GYMRU

Crëwyd egwyddorion adsefydlu CYMRU yn Narlun 3 yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid ac maent yn cyd-fynd â gwerthoedd craidd y GIG a'r system gyfan sydd wedi'u nodi yn [Cymru Iachach \(2018\)](#).

Darlun 3: Egwyddorion adsefydlu ar gyfer CYMRU



Yr egwyddorion:



Cynnal – cynllunio gwasanaethau tymor hir, croesawu arloesedd digidol er budd cymdeithasol a ffyrdd mwy gwyrdd o weithio a byw

Dylid cyflwyno ffyrdd newydd o weithio, megis defnyddio technoleg fodern, lle bynnag y gallant er mwyn gwella profiadau pobl o wasanaethau effeithiol, lleihau'r risg i unigolion a'r gweithlu iechyd a gofal. Er mwyn i wasanaethau digidol fod yn gynaliadwy mae'n bwysig bod pobl yn cael eu cefnogi i'w hatal rhag cael eu hallgáu'n ddigidol (cyfeiriwch at Dabl 3 am enghraifft o arfer da). Gall arloesi digidol hefyd arwain at GIG gwyrddach sy'n galluogi pobl i gael mynediad at gymorth yn nes at y cartref, gan olygu llai o deithio ac effaith gadarnhaol ar les staff.

Bydd cynllunio gwasanaethau hirdymor yn grymuso gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r gweithlu adsefydlu ehangach i ddatblygu cyflawniadau presennol ym maes adsefydlu. Bydd parhau i gydweithio a rhannu mentrau llwyddiannus a gwersi a

ddysgwyd ar draws proffesiynau a rhanbarthau yn caniatáu ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy parhaus.

Bydd hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r gweithlu ehangach ym mhob rhan o Gymru yn rhoi cyfleoedd i'r gweithlu aros yn lleol a chynhyrchu adsefydlu o safon aur i bobl Cymru yn nes at y cartref.



Ymateb gan bawb – ethos cydweithredol gweithlu cyfan a rhanddeiliaid

Roedd y grŵp rhanddeiliaid adsefydlu yn ystyried pwysigrwydd gwranddo gweithredol gan ein gweithlu adsefydlu a dysgu gan yr unigolyn, y teulu, gofawyr (cyflogedig a di-dâl) i ddatblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer pob poblogaeth. Mae angen cyd-gynhyrchu o'r dechrau gyda gwerthusiad parhaus trwy gydweithio eang rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, y gymuned, cyfranogiad amlasiantaeth y trydydd sector a phobl. Enghraifft dda o bartneriaeth ranbarthol rhwng awdurdodau lleol, iechyd y cyhoedd a'r trydydd sector yw'r [prosiect Pobl Hŷn Ifanc](#)²¹ a ddarperir ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nod y prosiect hwn yw cyd-gynhyrchu gweithgareddau cymunedol cefnogol i oedolion hŷn gyda ffocws ar gynnal annibyniaeth yn eu cymunedau lleol.

Mae rôl gweithwyr cymorth iechyd a gofal yn dod yn fwyfwy perthnasol ym mhob lleoliad adsefydlu. Mae gan AaGIC rôl ganolog i'w chwarae wrth gefnogi datblygiad cydweithredol anghenion hyfforddiant ym maes adsefydlu i greu dull galluogi ar draws pob lleoliad a gwasanaeth.



Mynediad - gwasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb

Mae anghydraddoldebau iechyd hysbys o ran mynediad at adsefydlu a phrofiadau gwaelach o wasanaethau iechyd a adroddwyd gan rai grwpiau cymdeithasol ac ethnig ([RCOT, 2022](#)).²² Dylid cefnogi pobl â'r angen mwyaf cyn gynted â phosibl i gael mynediad at adsefydlu darbodus. Mae grymuso'r sectorau cymdeithasol, iechyd, cymunedol a thrydydd sector ehangach yn hanfodol er mwyn gwreiddio adsefydlu ym

²¹ [prosiect Pobl Hŷn Ifanc](#)

²² [Roots of recovery: Occupational therapy at the heart of health equity - RCOT](#)

mhob gofal. Dylai hyn gynnwys y boblogaeth leol gan adlewyrchu amrywiaeth, anghenion diwylliannol a phersonol gyda'r nod o gynyddu mynediad at adsefydlu yn nes at y cartref. Dylid hefyd ystyried pobl sy'n byw mewn cymunedau mwy gwledig.

Dylid galluogi pobl i wybod sut i gael gafael ar y cymorth iawn, a dychwelyd yn hawdd at y cymorth iawn ar yr adeg iawn drwy fformatau megis un pwynt mynediad. Bydd hyn yn lleihau effaith methu â chael mynediad i adsefydlu ac adnoddau trwy feini prawf cynhwysiant ac eithrio traddodiadol.

Mae Tabl 6 yn rhoi enghraifft o sut mae timau ail-alluogi a gofal cymdeithasol wedi cydweithio i sicrhau mynediad at wasanaethau ar yr amser cywir.

Tabl 6 - Cydweithio a mynediad ar yr amser iawn

Ffocws	Datblygu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	Gwasanaeth ail-alluogi cof: Therapydd galwedigaethol Therapydd galwedigaethol cylchdro Technegydd galwedigaethol Staff tîm cymorth cartref
Pwrpas	Cefnogi pobl i adennill neu gynnal sgiliau a pharhau i fyw'n dda, mor annibynnol â phosibl yn y cartref. Hyrwyddo budd gwasanaeth ail-alluogi cof trwy atgyfeirio cynnar a mewnbwn.
Canlyniadau	Teimlai pobl eu bod yn cael eu cefnogi ar ôl gadael yr ysbyty a arweiniodd yn ei dro at sefydlu eu harferion dyddiol yn gynt i ddod mor annibynnol â phosibl.
Uchelgais yn y dyfodol	Annibyniaeth 100% i bobl nad ydynt angen darpariaeth gwasanaeth parhaus ffurfiol ar gyfer y chwarter nesaf.

Dylid archwilio ffyrdd integredig amlbroffesiynol o weithio i leihau nifer y cysylltiadau gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ac i leihau'r risg i bobl a darparwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd er mwyn parhau i fodloni anghenion pobl yn ddarvoudus a gall gynnwys gweithio 7 diwrnod a hygyrchedd 24 awr.

Rhoi pwyslais ar les – buddsoddi yn y gweithlu i ddarparu dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion



Yn ymwneud â'r gweithlu a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac adnoddau adsefydlu. Bydd y gweithlu'n cynnig dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion, wedi'i gefnogi a'i rymuso gan ddatblygiad adsefydlu yn y gymuned i ddarparu gofal yn nes at y cartref. Er mwyn helpu gwasanaethau i gadw a thyfu eu gweithlu, dylai cyfleoedd cyfathrebu, mentora a dysgu effeithiol fod ar waith i helpu pobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a mwynhau eu rôl. Mae rhagor o wybodaeth am les ar gael yn yr adran [Adnoddau](#) yn Atodiad C.



Unigolion yn byw bywyd hir, hapus – byw'n iach, atal, hunanreolaeth â chymorth ac optimeiddio

Mae canolbwyntio ar anghenion iechyd y boblogaeth gyda negeseuon iechyd cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth pan fydd pobl yn defnyddio gwasanaethau adsefydlu yn allweddol i hybu iechyd a lles cyffredinol, ac ymgysylltu â sgwrs ystyrllon. Dylid cefnogi'r holl staff iechyd a gofal i ddefnyddio pob cyfle i integreiddio negeseuon iach yn eu sgwrsiau adsefydlu, yn ymwneud ag anghenion y person, gan ddefnyddio sgiliau gwranddo gweithredol. Mae ['Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' \(MECC\)](#)²³ yn un enghraifft o sut y gall staff ddefnyddio eu rhyngweithio ag unigolion i godi ymwybyddiaeth a'u cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol bach i wneud y gorau o iechyd a lles corfforol a meddyliol.

Mae Tabl 7 yn rhoi enghraifft o sut mae MECC wedi cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau plant i helpu staff i gael sgwrsiau ffordd iach o fyw.

²³ [MECC // Public Health Network : Cartref](#)

Tabl 7 – Cyflwyniad MECC i ymarfer

Ffocws	Datblygu'r defnydd o MECC mewn gwasanaethau pediatrig.
Pwy sy'n rhan o'r tîm	Tîm ffisiotherapi pediatrig. Tîm iechyd y cyhoedd.
Pwrpas	Ymrwymiad i iechyd y boblogaeth trwy ddefnyddio dull MECC. Defnyddio'r sgysiau a'r rhyngweithio bob dydd y mae'r gweithlu'n ei gael gyda phlant a'u teuluoedd i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol. Cynlluniau gweithredu i gefnogi gwaith timau o amgylch MECC a sgysiau iach. Hyfforddiant ac addysg staff.
Canlyniadau	Teimlai 80% o'r staff fod hyfforddiant MECC wedi rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael sgysiau iach. Dywedodd 86% o staff fod MECC wedi eu cefnogi i wella ansawdd eu sgysiau iach. Teimlai 86% o staff fod yr hyfforddiant MECC wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad iechyd eu hunain. Teimlai 86% o staff fod hyfforddiant MECC wedi gwella eu hymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth lleol. Mae 67% o staff bellach yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn wrth gael sgysiau ffordd iach o fyw gyda phlant a'u teuluoedd.
Uchelgais yn y dyfodol	Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i wella iechyd a lles. Cynyddu buddion i fwy o blant, eu teulu ac iechyd y boblogaeth i helpu yn ei dro gydag iechyd a lles staff. Parhau i hyrwyddo adsefydlu fel busnes pawb i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

